

# PWYLLGOR CRONFA DATBLYGU CYNALIADWY

22 Ionawr 2020

Yn bresennol: Cynghorydd M James (Cadeirydd)  
Cynghorydd K Doolin, Dr M Havard, Cynghorydd M Williams,  
Cynghorydd S Yelland; Mr P Howe (Cyngor Sir Penfro) a Ms C  
Marmara (Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro).

(Swyddfeydd APC, Parc Llanion, Doc Penfro: 10.00am – 11.55am)

## 1. Ymddiheuriadau am absenoldeb

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb wrth Dr R Plummer a Ms S Green.

## 2. Datgelu buddiant

Datgelodd y Cynghorwyr K Doolin ac M James fuddiant personol yn SDF/2019/7 Teithiau Gogledd Sir Benfro.

## 3. Cofnodion

Cafodd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 5 Mehefin a 3 Gorffennaf 2019 eu cyflwyno i'w cadarnhau a'u llofnodi.

**PENDERFYNWYD** cadarnhau a llofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 5 Mehefin a 3 Gorffennaf 2019.

## 4. Materion yn codi

### Adroddiad Diweddariad Cronfa Datblygu Cynaliadwy (Cofnod 4)

Gofynnwyd am ddiweddariad ynghylch y gwelliannau i'r ffurflen gais CDC a thrafodaeth ynghylch strategaeth cyllido CDC ac yn wir gweinyddiad y Gronfa yn y dyfodol gan Planed. Cynghorodd Mr I Thomas, Prif Weithredwr Planed, bod y gwaith o adolygu'r ffurflenni wedi'i ddechrau a bod trafodaethau ar y materion eraill ar y gweill. Dymuniad yr Aelodau oedd y byddai Cadeirydd y Pwyllgor yn cael ei gynnwys yn y trafodaethau ar gyfeiriad y Gronfa yn y dyfodol.

**NODWYD.**

## 5. Cronfa Datblygu Cynaliadwy (CDC) Adroddiad Diweddariad

Atgoffwyd yr Aelodau bod gweinyddiaeth o ddydd i ddydd y gronfa nawr yn cael ei ddarparu gan Planed ar gyfnod prawf o 15 mis. Roedd yr adroddiad gerbron y Pwyllgor yn darparu diweddariad ynghylch ceisiadau oedd wedi'u cymeradwyo cynt ac yn amlinellu dau gais am arian a dderbyniwyd ers y cyfarfod blaenorol.

Nodwyd bod y gyllideb oedd wedi'i neilltuo i'r gronfa ar gyfer 2019/20 yn £100,000, ond o ganlyniad i symiau o arian eisoes wedi'u hymrwymo, y swm o gyllid CDC a oedd ar gael oedd £31,359. Felly, pe bai'r Pwyllgor yn dymuno, cynghorwyd bod cyllid digonol ar gael i gymeradwyo'r ddau brosiect oedd gerbron y diwrnod hwnnw.

## **NODWYD.**

### **5. Ceisiadau am gyllid gan y Gronfa Datblygu Cynaliadwy**

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i ddau gais newydd am gyllid o'r Gronfa Datblygu Cynaliadwy (CDC). Rhoddwyd ystyriaeth fanwl i'r ceisiadau yng nghyd-destun meini prawf asesiad y gronfa, yn dilyn cyflwyniad byr gan bob un o'r ymgeiswyr prosiect. Atgoffwyd yr Aelodau bod nifer o'r ceisiadau oedd wedi'u cynnwys ar yr agenda'r diwrnod hwnnw yn cynnwys gwybodaeth fasnachol gyfrinachol ac o'r herwydd ni ddylid ei rannu na'i ddsbarthu ymhellach.

<b>Rhif Cyf</b>	<b>Enw Prosiect</b>	<b>Cyflwyniad gan</b>	<b>Sefydliad</b>
SDF/2019/6	Gweithdy Coetir Coppicewood College	Bruce Slark David Hunter Kathy Slark Nathan Walton	Coppice College
SDF/2019/7	Teithiau Gogledd Sir Benfro	Malcolm Conolly	Siambwr Fasnach a Thwristiaeth Abergwaun a Wdig

Atgoffwyd y Pwyllgor, taw o dan amodau ei gylch gorchwyl, Aelodau Awdurdod y Parc Cenedlaethol oedd penderfynu gan gymryd i ystyriaeth farn yr Aelodau Ymgynghorol a oedd yn bresennol.

Yn dilyn trafodaethau **PENDERFYNWYD** fod:

- (a) y swm cyflawn o gyllid a ofynnwyd amdano yn cael ei ganiatáu i'r cais canlynol, yn amodol ar yr amodau grant arferol ac unrhyw gafeatau ychwanegol a gytunwyd yn y cyfarfod (gan fanylu islaw):

SDF/2019/6 - Gweithdy Coetir Coppicewood College - yn amodol ar ganiatâd cynllunio a sicrhau caniatâd SSSI, darparu gwefan dwyieithog/deunydd hyrwyddo.

- (b) gohirio'r cais canlynol:

SDF/2019/7 - Teithiau Gogledd Sir Benfro - cyfarfod i'w drefnu gyda'r ymgeiswyr i sicrhau eglurder ynghylch hyfforddiant, yswiriant, darparu deunydd hyrwyddo Iaith Gymraeg a chydymffurfiant â gofynion Rheolaeth Diogelu Data Cyffredinol

a'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Y wybodaeth i'w  
ddosbarthu i'r Pwyllgor er mwyn penderfynu trwy gyfrwng  
pleidlais e-bost.